

Rhent a Budd-dal Tai a Threth Gyngor

Croeso i'ch cartref newydd.

Bydd eich Swyddog Cyllid yn ymweld â chi ymhen 14 diwrnod o ddechrau eich tenantiaeth a gall helpu gydag unrhyw ymholiadau a allai fod gennych o ran talu'ch rhent a'ch cais am fudd-dal tai os ydych eisoes wedi gwneud cais amdano.

Fodd bynnag, os bydd gennych unrhyw ymholiadau cyn yr ymweliad, gallwch gysylltu â'r Tîm Cyllid drwy ffonio 029 20537350 neu e-bostio housingrents@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennu i Cyngor Caerdydd, Blwch SP 6000, Caerdydd CF10 3WG.

Dylid talu rhent bob wythnos. Os ydych am drafod talu rhent yn llai aml na hynny, ffoniwch y rhif ffôn uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu'ch bod yn cael unrhyw drafferthion wrth dalu rhent cysylltwch â'r Tîm Cyllid ar unwaith.

Sut i Dalu'ch Rhent

O fewn 14 diwrnod o ddechrau eich tenantiaeth dylech gael sweipgerdyn rhent; mae hwn wedi cael ei archebu'n awtomatig i chi ers pan ddechreuodd y denantiaeth newydd.

Gallwch dalu fel a ganlyn:

Ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/tai - bydd angen rhif eich cyfrif arnoch. Gallwch wneud taliadau gyda cherdyn debyd neu gredyd.

- **System Dalu Awtomataidd** – ffoniwch C2C ar 029 20872088 – bydd angen rhif eich cyfrif arnoch. Gallwch dalu gyda cherdyn debyd neu gredyd.
 - **Dros y ffôn ar 029 20 537350.** Gallwch dalu gyda cherdyn debyd neu gredyd.
 - Gallwch gael ffurflenni i dalu drwy **Archeb Sefydlog** drwy gysylltu â'r Tîm Cyllid.
 - Yn **Swyddfa'r Post** – Bydd angen eich sweipgerdyn rhent arnoch ar gyfer gwneud taliadau.
- Mannau Talu** - Bydd angen eich sweipgerdyn rhent arnoch ar gyfer gwneud taliad. Nodwch y gall talu mewn Mannau Talu gymryd cryn dipyn yn fwy o amser i gyrraedd eich cyfrif rhent.

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni



Os oes angen i chi drafod eich cyfrif rhent neu fod angen ffurflen archeb sefydlog neu sweipgerdyn rhent newydd arnoch, neu os oes gennych ymholiad am faint o rent y mae angen i chi ei dalu ffonwch y Tîm Cyllid ar **029 20537350**.

Rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i rent

Cewch Hysbysiad Amrywio o leiaf 28 diwrnod cyn i'ch ffioedd rhent neu wasanaethau newid. Fel arfer bydd Hysbysiad Amrywio newydd yn cael ei anfon atoch chi bob mis Mawrth cyn y cynnydd blynyddol ym mis Ebrill.

Nid yw hyn yn cynnwys newidiadau i swm y budd-dal tai a gewch.

Bydd yr Hysbysiad Amrywio hefyd yn egluro y gallwch roi gwybod yn ysgrifenedig os nad ydych am barhau â'ch tenantiaeth yn yr eiddo newydd a rentir. Rhaid i chi dal roi pedair wythnos o rybudd i ddod â'ch tenantiaeth i ben, a chaiff rhent ei godi arnoch am y cyfnod hwn.

Gallai **Budd-dal Tai** helpu tuag at dalu eich rhent os ydych ar incwm isel. Hyd yn oed os ydych yn cael budd-dal gall fod angen i chi dalu ychydig o rent, bydd hyn yn dibynnu ar eich incwm, cynilion a manylion y cartref. Efallai na fyddwch yn gymwys i'w gael os oes gennych fwy o gynilion nag a ganiateir gan y Llywodraeth.

I hawlio Budd-dal Tai, bydd angen i chi gwblhau a dychwelyd ffurflen gais ac efallai bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'ch cais o hyd. Gallwch anfon y ffurflen i

Yr Adran Fudd-daliadau
Rhadbost CF429
Blwch SP 6000, Caerdydd
CF11 0WZ

Dylech wneud cais ar unwaith, oherwydd gallai oedi arwain at gollu'ch budd-dal. Cysylltwch â'r Tîm Cyllid os oes angen help arnoch wrth gwblhau'r ffurflen gais ac os ydych yn cael trafferth rhoi tystiolaeth - mae'n bosibl y gall eich helpu neu drefnu ymweliad â'r cartref.

Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai rhaid i chi roi gwybod am unrhyw newidiadau yn eich incwm, cynilion neu gartref i'r Cyngor, gan y gall y newidiadau hyn effeithio ar eich hawl i gael Budd-dal Tai. Os nad ydych yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau wrth iddyn nhw ddigwydd gallech chi gael gormod o fudd-dal. Gellir adfer unrhyw ordaliad budd-dal oddi wrthyh chi a gallwch gael eich erlid os ydych nad ydych yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau yn fwriadol.

Gall eich Swyddog Cyllid eich helpu drwy wneud y canlynol:

Eich helpu i wneud cais am Fudd-dal Tai.

Rhoi cyngor ar fudd-daliadau lles eraill.

Rhoi manylion am ble y gallwch gael help gyda'ch dyledion.

Os ydych yn mynd i ddyled ac yn methu ag ad-dalu'n syth gall eich Swyddog Cyllid drefnu eich bod yn ad-dalu eich ôl-daliadau mewn symiau wythnosol rhesymol.

Os ydych yn cael rhai budd-daliadau gall fod yn bosibl i dalu swm bach yn uniongyrchol atom ni er mwyn lleihau'r ôl-daliadau.

Gallwch alw mewn gyda'ch dogfennau neu i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau. Bydd angen gwneud apwyntiad os oes angen help arnoch i gwblhau ffurflen gais newydd ac ar gyfer ymholiadau mwy cymhleth. I drefnu apwyntiad, ffonwch 029 2087 1391 neu anfonwch e-bost i budd-daliadau@caerdydd.gov.uk

Canolfan Caerdydd

Canolfan Ymholiadau Cyswllt Cyntaf,
Llawr Gwaelod, Tŷ Marland, Sgwâr Canolog, Caerdydd, CF10 1EP
Ar Agor: Llun i Mercher 8:45 - 5:00; Iau 10:00 - 6:30; Gwener 8:45 - 5:00

Llaneirwg

Llyfrgell Llaneirwg, 30 Crickhowell Road, Llaneirwg CF3 0EF
Ar agor: Llun i Mercher 9:00 - 6:00, Iau 09:00 - 7:00, Gwener 9:00 - 6:00, Sadwrn 9:00 - 5:30

Llanedern

Swyddfa Tai, The Powerhouse, CF23 9PN
Ar agor: Llun i Gwener 9:00 - 5:00

Llanrhymini

Llyfrgell Llanrhymini, Countisbury Avenue CF3 5NQ
Ar agor: Llun i Iau 9:00 - 6:00; Gwener 10:00 - 7:00 a 9:00 - 5:30

Trelái

Swyddfa tai, 4 Grand Avenue, CF5 4GJ
Ar agor: Llun i Mercher 9:00 - 5:00; Iau 10:00 - 5:00, Gwener 9:00 - 5:00

Butetown @ Loudoun

Plas Iona, Butetown, CF10 5HW
Ar agor: Llun i Mawrth 9:00—5:00; Mercher 10:00—6:00; Gwener i Iau 9:00—5:00

Y Sblot

Canolfan Hamdden STAR, Heol Sblot, CF24 2BZ
Ar agor: Mawrth & Mercher 10:00 - 5:00

Y Tyllgoed

Llyfrgell y Tyllgoed, Doyle Avenue, CF5 3HU
Ar agor: Llun i Iau 9:00 - 12:45 a 2:00 - 5:00

Treganna

Llyfrgell Treganna, Library Street, Treganna CF5 1QD
Ar agor: Mawrth 9:00 - 1:00 a 2:00 - 6:00

Adamsdown

Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd, 50 Meteor Street, Adamsdown CF24 0HE
Ar Agor: Mercher 9:00 – 1:00 a 1:45 - 4:30

Nodwch fod Swyddfeydd y Cyngor ar gau ar wyliau banc.

Gwasanaeth Ymweliad â'r Cartref

Os hoffech help i gwblhau eich ffurflen ac nad ydych yn gallu dod i unrhyw un o'r swyddfeydd uchod cysylltwch â ni i drefnu ymweliad cartref ar 20537550
Gallwch anfon e-bost atom yn budd-daliadau@caerdydd.gov.uk

Ymholiadau am Fudd-daliadau dros y Ffôn

Gallwch ffonio'r gwasanaeth ar 029 20872088

Tenantiaid y Cyngor – Ymholiadau Cyfrifon Rhent

E-bost: housingrents@caerdydd.gov.uk
Ffôn: (029) 2053 7350

Ôl-ddyledion - os nad ydych yn talu'r rhent ac nad ydych yn cysylltu â'ch Swyddog Cyllid byddwch yn derbyn llythyr i'ch hysbysu am y sefyllfa. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu â'ch Swyddog Cyllid ar yr adeg hon i drafod eich ôl-daliadau fel nad ydynt yn cynyddu ymhellach.

Fodd bynnag, os na fyddwch yn gwneud taliad nac yn cysylltu, bydd y Swyddog Cyllid yn ymweld â'ch cartref. Yn ystod yr ymweliad hwn bydd y Swyddog Cyllid yn trafod eich ôl-daliadau ac yn cynnig cyngor ar hawlio Budd-dal Tai. Os nad ydych yn gallu clirio eich dyled mewn un taliad gall eich Swyddog Cyllid drefnu eich bod yn ad-dalu eich ôl-daliadau mewn symiau wythnosol rhesymol.

Os yw'r cytundeb yn cael ei dorri ac mae'r ôl-daliadau'n parhau i gynyddu gallwn gyflwyno rhybudd cyfreithiol atoch chi i ddod â'ch tenantiaeth i ben. Cewch gyfle i apelio yn erbyn y rhybudd hwn. Mae hwn yn fater difrifol. Os yw'r ôl-ddyledion yn parhau ac nad yw'r apêl yn llwyddiannus, byddwn yn gwneud cais i'r Llys Sirol i feddiannu'ch cartref.

Llys - Os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud cais i'r Llys Sirol byddwch yn cael gwahoddiad i ddod i'r gwrandawriad. Bydd costau llys yn cael eu codi arnoch a'u hychwanegu at eich cyfrif rhent. Bydd y Barnwr yn ystyried eich achos a gall benderfynu dyfarnu un o'r gorchmynion canlynol.

Gorchymyn Ildio Meddiant – Mae hwn yn rhoi eich cartref ym meddiant y Cyngor unwaith y daw'r gorchymyn i rym. Mae hyn yn golygu y cewch chi a'ch teulu eich troi allan o'ch cartref. Os oes gennych denantiaeth ragarweiniol neu isradd dyma'r unig orchymyn gall y Barnwr ei ddyfarnu.

Gorchymyn Atal Meddiannaeth – Mae hwn yn rhoi cyfle i chi wneud taliadau rheolaidd o'r rhent sy'n daladwy yn ogystal â swm oddi ar yr ôl-ddyledion; caiff swm y taliadau ei nodi yn y gorchymyn. Ni fydd y Cyngor yn eich troi allan o'ch cartref oherwydd ôl-ddyledion rhent os byddwch yn cydymffurfio â thelerau'r gorchymyn.

Gorchymyn Gohirio Meddiannaeth – Mae hwn yn rhoi cyfle i chi barhau i dalu'r rhent yn rheolaidd yn ogystal â swm oddi ar yr ôl-ddyledion. Fodd bynnag os na chedwir at delerau'r gorchymyn, bydd y Cyngor yn ailgyflwyno'ch achos i'r Llysoedd a bydd costau pellach yn cael eu hychwanegu at eich cyfrif. Bydd gwrandawriad pellach a gall y Barnwr ddyfarnu naill ai Gorchymyn Ildio Meddiant neu Orchymyn Atal Meddiannaeth.

Troi Allan - Os yw'r Llys wedi dyfarnu Gorchymyn Atal Meddiannaeth ac nad ydych wedi cadw at delerau'r gorchymyn, neu os yw'r Llys wedi dyfarnu Gorchymyn Ildio Meddiant, gallwch chi a'ch teulu gael eich troi allan o'ch cartref.

Cofiwch – dylech gysylltu â'ch Swyddog Cyllid ar unwaith i drafod eich cyfrif, hyd yn oed os ydych wedi cael Hysbysiad Ceisio Meddiant, Hysbysiad i Ddiddymu Tenantiaeth Ragarweiniol, Hysbysiad Ceisio Meddiant Tenantiaeth Isradd neu os ydych yn wynebu achos Llys neu gael eich troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent.